Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

SEE ENGLISH BELOW

**Tan-y-Lan** 21/10/22

**Ymweliad Disgyblion – Tachwedd 17eg**

Mae gwahoddiad i'ch plentyn i fynychu bore sgiliau ymarferol ym Mryn Tawe ar ddydd Iau yr 17eg o Dachwedd. Fe fydd cludiant yn cael ei drefnu gan eich ysgol gynradd i gyrraedd Bryn Tawe. Gan y bydd rhai disgyblion yn coginio, a wnewch chi gysylltu â mi ym Mryn Tawe os oes gan eich plentyn unrhyw alergedd bwyd os gwelwch yn dda? Fe fydd angen arian arnynt i brynu bwyd - tua £3 (arian mân yn unig os gwewlch yn dda). Os ydynt yn dymuno, cânt ddod â brechdanau ar gyfer cinio. Fe fydd tocyn cinio ar gael i ddisgyblion sydd yn derbyn cinio rhad.

**Ymweliad Rhieni – Tachwedd 17eg**

Mae gwahoddiad i chi fel rhieni gael taith o gwpas Ysgol Bryn Tawe. Pwrpas yr ymweliad yw i roi cyfle i chi weld yr ysgol 'ar waith'. Bydd coffi a thê ar gael i chi am 9:15y.b. ar ddydd Iau yr 17eg o Dachwedd (Os nad yw'r dyddiad yma'n gyfleus cysylltwch â Bryn Tawe er mwyn ail-drefnu.) Yn dilyn sgwrs fer, fe fyddwn yn eich tywys o gwmpas nifer o ddosbarthiadau er mwyn rhoi blas i chi o'r profiadau bydd eich plentyn yn eu cael ym Mryn Tawe gan orffen tua 10:50y.b. Bydd digon o gyfle i chi holi cwestiynau am yr ysgol yn ystod eich ymweliad, ond os oes unrhyw gwestiwn gennych yn y cyfamser, yna cysylltwch â mi yn yr ysgol.

---

**Pupils' Visit – November 17th**

Your child is invited to attend a practical skills morning at Bryn Tawe on Thursday, 17th of November. Transport will be arranged by your primary school to arrive at Bryn Tawe by approximately 9:15 a.m. As some pupils will be cooking, please contact me at Bryn Tawe to inform me of any food allergy that your child has. They will need lunch money – about £3 (loose change only please). They are welcome to bring sandwiches if preferred. There will be meal tokens available for pupils who receive free school meals.

**Parents' Visit – November 17th**

We are arranging visits for you as parents to see Bryn Tawe 'at work'. Tea and coffee will be provided at 9:15a.m.on Thursday November 17th. (If this date is not convenient, please contact Bryn Tawe to re-arrange.) Following a brief introduction we will take you on a tour of the school where you will have an opportunity to see a sample of several different lessons. We'll finish by approximately 10:50a.m. There will be plenty of opportunities to ask questions during the morning, however, if you have any queries beforehand please contact me at school.

Yn gywir / Yours faithfully,

Miss Angharad Jenkins

(Arweinydd Pontio/ Transition Leader)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies